ATODIAD 1

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2025/26 FESUL ADRAN

### TABL 1
### CYNLLUNIAU WEDI EU GWIREDDU

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2025/26 £** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu £** | **Canran cynlluniau wedi eu gwireddu** |
|---|---|---|---|
| Addysg | 1,659,740 | 1,659,740 | 100% |
| Ysgolion | 4,331,620 | 4,331,620 | 100% |
| Amgylchedd | 2,972,463 | 2,922,463 | 98% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 2,569,218 | 2,569,218 | 100% |
| Cyllid | 1,881,636 | 1,881,636 | 100% |
| Economi a Chymuned | 2,916,422 | 2,851,422 | 98% |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 6,794,981 | 6,317,451 | 93% |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,318,908 | 2,318,908 | 100% |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | 6,531,580 | 6,496,580 | 99% |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 403,240 | 403,240 | 100% |
| Tai ac Eiddo | 843,230 | 843,230 | 100% |
| **Is-gyfanswm** | **33,223,038** | **32,595,508** | 98% |
| Arbedion Rheolaethol | 1,200,360 | 1,200,360 | 100% |
| **CYFANSWM** | **34,423,398** | **33,795,868** | 98% |

**TABL 2**

**CYNLLUNIAU ETO I'W GWIREDDU**

| **Adran** | **2019/20** £ | **2020/21** £ | **2021/22** £ | **2022/23** £ | **2023/24** £ | **2024/25** £ | **2025/26** £ | **Cyfanswm** £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgylchedd | | | 37,500 | 12,500 | | | | 50,000 |
| Economi a Chymuned | | 45,000 | | | | | 20,000 | 65,000 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 215,600 | 49,360 | | | 12,570 | | 200,000 | 477,530 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | | 8,750 | 26,250 | | | | | 35,000 |
| **CYFANSWM** | **215,600** | **103,110** | **63,750** | **12,500** | **12,570** | **0** | **220,000** | **627,530** |

| **Adran *(nifer cynlluniau)*** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:** |
|---|---|
| Amgylchedd *(1 cynllun)* | Llithriad ar un cynllun sef *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio* (£50k). |
| Economi a Chymuned *(2 gynllun)* | Bu oediad ar y cynllun *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15* (£45k), bwriedir i drefniadau parhaol i godi ffi parcio ddod yn weithredol yn ystod 2026/27. Oherwydd y risg o beidio gallu gweithredu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor, penderfynwyd lleihau y targed incwm o £100k i £20k ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Mae'r monitro diweddaraf yn awgrymu bod pethau yn edrych yn fwy addawol gyda chynnydd yn yr incwm cysylltedig. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant *(5 cynllun)* | Mae risgiau sylweddol o gyflawni arbedion gwerth £200k ar y cynllun *Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)* a £186k ar y cynllun *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn.* Yn ogystal mae rhai risgiau cyflawni arbedion y cynllun *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£13k). Bu llithriad ar 2 gynllun sef *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant* (£49k) a *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* sydd gyda balans o £30k ond nid yw'r Adran yn rhagweld problemau eu gwireddu. |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd *(1 cynllun)* | Mae'r cynllun Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont (£35k) wedi llithro ond mae'r adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail. |